Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol

14 Mawrth 2019

Annwyl Jeremy

Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (y Rheoliadau) yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2019.

Nododd y Pwyllgor un pwynt technegol i gyflwyno adroddiad arno i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2(v).

Mae rheoliad 2(4) yn diwygio paragraff 1(1)(e) o Atodlen 1 i Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2009, er mwyn disodli "neu ledled yr Undeb Ewropeaidd" gyda "yn genedlaethol neu yn eu gwasgariad naturiol". Nid yw'n glir a yw "yn genedlaethol" yn cyfeirio at Gymru, ynteu at y DU.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru hefyd, y gwnaethom ei drafod yn y cyfarfod ar 4 Mawrth, yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod "cenedlaethol" yn cyfeirio at y DU, a'r term "rhanbarthol", sy'n rhagflaenu'r term hwnnw, yn golygu Cymru.

Mae'r mater hwn yn amlygu y caiff termau o'r fath eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd, ac mae i hyn botensial arwain at ddryswch a sefyllfa anfuddiol. Er enghraifft, mae adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn cyfeirio at "strategaeth genedlaethol", lle mae "cenedlaethol" yn cyfeirio at Gymru. Er y gall y cyd-destun yn aml awgrymu beth yw ystyr "cenedlaethol", ni fydd hynny'n wir

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

bob amser (a beth bynnag, mae eglurder ar wyneb deddfwriaeth bob amser yn well na gorfod dibynnu ar gyd-destun).

Hoffem hefyd awgrymu nad yw'r dehongliad hwn o “cenedlaethol” a “rhanbarthol” yn gywir nac yn ddigon ystyrlon wrth adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni yn dilyn datganoli o fewn y Deyrnas Unedig. Rydym yn credu bod hwn yn fater y dylai fod yn hawdd ei newid drwy gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Am y rheswm hwnnw, hoffem dynnu eich sylw at y mater hwn i'w ystyried yn y dyfodol.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir

Mick Antoniw AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English